**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Cymunedau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Hydref 2016

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) / Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

**Awduron yr Adroddiad:** Uwch Swyddog Tai (Tai â Chymorth) a Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl

**Teitl:** Rheoli Cefnogaeth Byw'n Annibynnol (SIL), Ail-alluogi a'r Gwasanaeth Gweithiwr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCSW) yn Sir Ddinbych.

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

I amlinellu buddion posibl o fabwysiadu dull symlach o reoli gwasanaethau Byw'n Annibynnol (SIL) ac Ail-alluogi i'r Dinesydd ac i'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ym mis Mehefin 2016 y bydd adroddiad ar uno posibl o wasanaethau SIL ac Ail-alluogi yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn y dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn rhoi sylwadau fel bo'n briodol;

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae SIL yn cael ei ariannu'n llawn gan y Grant Cefnogi Pobl, a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn destun Adolygiad llawn Gwasanaeth Cefnogi Pobl ym mis Medi 2015, a arweiniodd at 21 o argymhellion dros 6 Maes Canlyniad. Dim ond saith cam gweithredu sydd heb eu cwblhau, ac mae'r rheolwr SIL yn hyderus y bydd y rhain yn cael eu diwallu o fewn y terfynau amser a gytunwyd.

4.2 Cyflwynwyd contract newydd i SIL i ddechrau ym mis Ebrill 2016. Nid yw Cefnogi Pobl yn bwriadu gwneud unrhyw ostyngiadau pellach i gyllideb SIL ar gyfer 2017/18, fodd bynnag, yn debyg iawn i holl wasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl, mae'n rhaid i SIL fod yn barod ar gyfer toriadau mewn cyllideb yn y dyfodol. Hefyd, bwriedir y bydd Cefnogi Pobl yn ariannu elfennau'r gwasanaeth ail-alluogi yn rhannol o 2017/18 ymlaen.

4.3 Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau sydd yn ymatebol ac yn hygyrch i ddinasyddion. Teimlir bod rhoi SIL, Ail-alluogi a Gwasanaeth Gweithiwr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol dan strwythur reoli Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych wedi'i alinio a fydd yn caniatáu hyn i ddigwydd.

4.4. Bwriad yw datblygu gwasanaeth di-dor sy’n cynnig cronfa gynyddol o sgiliau drwy ddod â’r holl elfennau h.y. SIL, Ail-alluogi, gwasanaeth HSCSW at ei gilydd.

4.5 Mae’r rhaglen Cefnogi Pobl wedi ffocysu ar ymyrraeth ac ataliaeth gynnar, sy’n eistedd o fewn ethos Ail-alluogi ac egwyddorion craidd Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant.

4.6 O safbwynt dinesydd, byddant yn gallu cael mynediad at y lefel briodol o gefnogaeth ar gyfer eu hanghenion o bwynt mynediad sengl. Bydd y gwasanaeth newydd yn canolbwyntio ar y canlyniadau ac yn darparu yn unol â'r "hyn sydd o bwys" iddynt.

4.7 Yn ogystal â'r toriadau posibl i gyllideb Cefnogi Pobl, mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn disgwyl gostyngiadau o ran cyllid yn 2017/18. Felly mae arnom sicrhau ein bod yn gweithio’n effeithlon. Bydd y cynigion yn golygu y bydd lleihad mewn costau gorbenion rheoli ac felly yn darparu ychydig o ddiogelwch ar gyfer darparu gwasanaeth rheng flaen yn y dyfodol.

4.8 Mae cyfrifoldeb rheoli dros SIL wedi ei basio i’r Rheolwr Gwasanaeth dros Ardaloedd o’r 4 Hydref ymlaen wrth ddisgwyl am yr uno.

4.9 Yn dilyn cyfnod pontio byr, bydd adolygiad o’r strwythur reoli yn dechrau. Disgwylir y bydd yr holl newidiadau mewn lle erbyn 1 Ebrill, yn dilyn ymgynghoriad dwys gyda holl rhanddeiliaid.

4.10 Bydd y gwasanaeth wedi'i uno yn gweld pob un o'r tri maes gwasanaeth yn aros yn annibynnol o'i gilydd ac yn wahanol, a fyddai'n helpu o ran monitro perfformiad, atebolrwydd ariannol ac, yn bwysicaf oll, dealltwriaeth dinasyddion, ond dylai hwyluso mwy o integreiddio rhyngddynt a thrwy hynny yn darparu gwasanaeth cyffredinol o ansawdd gwell, am gost gyffredinol llai.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-2017 yn y meysydd canlynol:-

a. Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
b. Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da. Mae’r prosiect yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at atal digartrefedd ar gyfer pobl ddiamddiffyn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Disgwylir y bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaeth a ni fydd unrhyw gostau ychwanegol. Disgwylir y bydd arbedion yn 2017/18 o ganlyniad i symleiddio'r rheolaeth o’r gwasanaethau hyn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Lesiant?**

Mae’r cynigion i uno gwasanaethau SIL ac Ail-alluogi wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl ar gyfer 2017/18. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Lesiant (WIA) ar 5 Hydref 2016 (hwn oedd y cyntaf i LCP ei gyflawni). Adnabuwyd yn hwn bod gan y Cynllun effaith gadarnhaol ar bum allan o saith nod llesiant; a’r ddau dros ben yn niwtral. O ran cynaliadwyedd, sgoriodd y Cynllun 15/24 – efallai

bod hwn yn cael ei ddylanwadu'n rhannol gan yr ansicrwydd gyda chronfa Grant Cefnogi Pobl; fodd bynnag, ailedrychir ar yr Asesiad o Effaith ar Lesiant yn dilyn unrhyw newidiadau mewn adborth gan aelodau Archwilio/ SPPG/ Cabinet.
Mae adolygiadau gwasanaeth/ rheoli contract yn ystod y flwyddyn hefyd yn sicrhau y gellir adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol.

Roedd Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau eisoes ar gyfer yr LCP ym mis Gorffennaf 2016. Cadarnhaodd hwn bod gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael mynediad gan bob grŵp nodweddion a ddiogelir; a bod pob ymdrech rhesymol wedi ei wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol anghymesur posibl ar y rheiny sydd ag nodweddion a ddiogelir, a bydd gwasanaeth Cefnogi Pobl yn parhau i fonitro'r effaith o unrhyw newidiadau a wneir. Ni wnaeth yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb adnabod unrhyw effaith niweidiol a ddaeth yn sgil y Cynllun ar unrhyw nodweddion a ddiogelir.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r cynigion i unol SIL ac Ail-alluogi wedi cael eu cynnwys o fewn y Cynllun drafft Comisiynu Cefnogi Pobl Lleol 2017/18, a aeth drwy gyfnod ymgynghori 8 wythnos gyda gwahanol rhanddeiliaid. Yn ychwanegol, cynhaliwyd Diwrnod Cefnogi Pobl yn Neuadd y Dref y Rhyl ar 12 Medi 2016, gyda mynychwyr gan gynnwys dinasyddion a staff o wahanol asiantaethau rhanddeiliad.

8.2 Bydd y Cynllun Comisiynu Lleol a'r asesiad o effaith terfynol yn cael eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio Partneriaeth, cyn y bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno a'i chadarnhau gan Cabinet Cyngor Sir Ddinbych.

8.3 Mae ymrwymiad i rannu gwybodaeth o ansawdd dda o ran newidiadau posibl i SIL gyda dinasyddion, staff ac aelodau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodwyd uchod, mae SIL yn cael ei ariannu'n llawn gan y Grant Cefnogi Pobl a ddarperir yn uniongyrchol gan Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn y gyllideb a ddarperir gan y Grant Cefnogi Pobl. Mae'r adroddiad hwn yn nodi dull rhesymol i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer 2016/17, yn ogystal ag esbonio cynllunio cyflenwi ariannol a gwasanaeth gyda lleihad tebygol yn y lefelau grant yn y blynyddoedd i ddod.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw i'r Grant Cefnogi Pobl gael ei leihau fwy na'r disgwyl yn y blynyddoedd i ddod, gan greu sefyllfa lle bydd angen gwneud gostyngiadau pellach i'r gyllideb SIL. Bydd yr adolygiad o drefniadau rheoli yn lleihau'r perygl hwn, ond efallai y bydd angen lleihau ymhellach nifer yr oriau o gefnogaeth uniongyrchol a ddarperir.

Mae risgiau ychwanegol yn aros i holl gyllideb oherwydd ansicrwydd mewn ffrydiau ariannu yn y dyfodol.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi, a pherfformiad yr Awdurdod i ddiwallu amcanion polisi.

**12. Swyddog Cyswllt:** Jane Moore, Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (Ffôn: 01824 712341)